*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Jamie Pugh Dental Health Ltd.

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Chwefror 2015

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Dylai proses gwyno'r GIG fod yn fwy gweladwy i gleifion a dylai gynnwys manylion y cyngor iechyd cymuned lleol.<br><br>Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011 – 4.8 | Symudwyd polisi cwynion y GIG o'r tu ôl i'r dderbynfa i'r tu blaen, a chynyddwyd maint y ffont.<br><br>Ychwanegwyd manylion y cyngor iechyd cymuned yn syth ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe'u hargraffwyd a'u harddangoswyd.<br><br>. | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |
| Tudalen 7 | Hysbysir y practis o'r angen i roi manylion i gleifion preifat am eu hawl i ddwyn pryderon at sylw AGIC fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. | Ychwanegwyd manylion AGIC i'r polisi trin cwynion preifat, ac maent wedi eu harddangos. | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 – Rheoliad 16 (2) | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| Tudalen 9 | Rhaid i'r practis sicrhau bod rheolau lleol yn cael eu harddangos yn glir ym mhob ystafell driniaeth. Yn ogystal, rhaid i ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd y practis gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau cyfredol a safonau'r GIG.<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<br><br>Safonau 3d, 4, 7a, 16a, 16f y GIG | Mae rheolau lleol ar gyfer peiriannau pelydr-X wedi eu lleoli ger pob peiriant. At ddibenion yr arolygiad, fe'u symudwyd er mwyn archwilio'r gwaith papur, ond cynghorwyd nad oedd angen gwneud hyn, ac na ddylent gael eu symud o'r peiriant erioed.<br><br>Diwygiwyd y rheolau lleol ac ychwanegwyd diagram i ddangos y man a reolir.<br><br>Ychwanegwyd protocol brys ychwanegol ynglŷn â ph'un a yw ffilm wedi'i datguddio neu os yw prosesydd yn methu.<br><br>Mae llawlyfrau ar gyfer pob peiriant wedi eu hargraffu a'u harddangos ger pob peiriant. | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |
| Tudalen 9 | Hysbysir y practis am yr angen i arddangos arwyddion rhybudd priodol yn y rhan o'r practis lle defnyddir offer pelydr-X.<br><br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<br>Safon 1b y GIG | Gan fod y gweithredwr wedi'i leoli wrth y fynedfa ac yn gallu rheoli mynediad yn weledol, gwnaeth ein cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd gynghori na fyddai angen signal rhybuddio (hefyd, tynnwyd y signal rhybuddio blaenorol a oedd ar y drws gyda'r drws wrth i'r practis gael ei ailwampio). Fodd bynnag, rydym wedi arddangos | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | arwyddion pelydr-X newydd er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth. | | |
| Tudalen 10 | **Hysbysir y practis am yr angen i sefydlu system ar gyfer archwiliad ffurfiol/gwerthusiad clinigol o ansawdd delweddau (pelydr-X), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a Safon 6a y GIG.** | Yn ogystal â graddio ansawdd pob delwedd pelydr-X, rydym wedi cyflwyno polisi, os yw'r archwiliad cyfrifiadur yn cwympo oddi tan 90% dosbarth/gradd 1, i asesu is-grŵp o 10-20 o ddelweddau bob 6-12 mis er mwyn cadarnhau a ydynt o ansawdd digonol/boddhaol. | Mrs Tracy Pugh | Gweithredwyd, a bydd yn cael ei adolygu bob chwe mis. |
| Tudalen 10 | Hysbysir y practis am yr angen i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei osod ar wahân mewn cynwysyddion addas ar gyfer ei waredu, yn unol â Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a Safonau 13d a 15a y GIG. | Roedd gan y practis/tîm deintyddol fynediad at gynwysyddion ar gyfer deunydd peryglus penodol (amalgam), a gwnaed hyn ar ddyddiad yr arolygiad ac fe'u labelwyd. Yn hytrach na chytundeb gyda Canon Hygiene i gasglu, ers hynny rydym wedi llofnodi cytundeb cynnal a chadw amalgam gyda Canon Hygiene i gyflenwi cynwysyddion swyddogol a thynnu ein gwastraff amalgam yn rheolaidd. | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |
| Tudalen 12 | <u>**Mater o Sicrwydd Ar Unwaith**</u><br>Ar hyn o bryd, mae'r practis yn torri Adran 11 Deddf Safonau Gofal 2000. Mae hyn oherwydd eich bod yn parhau i weithredu fel sefydliad heb fod wedi cofrestru'n briodol.<br>Yn benodol, yn ystod ein harolygiad ar 18 | **Anfonodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith at y practis yn dilyn y mater hwn.**<br><br>Ar hyn o bryd yn llenwi gwaith papur i gofrestru'r practis deintyddol fel ysbyty, er mwyn defnyddio laser Dosbarth 4. Mae'r allwedd i weithredu'r | Mr Jamie Pugh | 16 wythnos |

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Chwefror 2015, gwelsom eich bod yn defnyddio cynnyrch laser Dosbarth 4, heb i'r practis fod wedi'i gofrestru'n briodol ar gyfer ei ddefnyddio. Cadarnhawyd hyn trwy archwilio deg o gofnodion diweddar cleifion, yr oedd tri ohonynt yn cyfeirio at y defnydd o'r laser Dosbarth 4 yn yr adeilad.<br><br>Rhaid i chi roi'r gorau i ddarparu unrhyw driniaeth bellach yn defnyddio'r cynnyrch hwn heb fod wedi cofrestru'n briodol gydag AGIC i wneud hynny.<br><br>Mae'r cofrestriad hwn ar wahân i'ch cofrestriad ag AGIC sy'n gysylltiedig â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Er mwyn gweithredu laser Dosbarth 4, rhaid i chi gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a chofrestru'r practis fel ysbyty annibynnol. | laser wedi ei thynnu oddi ar y safle. | | |
| Tudalen 12 | Mae angen i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o dystysgrif cynnal a chadw gyfredol a dilys mewn perthynas â'r uned laser Dosbarth 4.<br><br>Safonau 1b, 16 ac 16b y GIG | Yn aros am apwyntiad gyda Henry Schein i wasanaethu'r laser. | Mr Jamie Pugh | Yn aros am beiriannydd H Schein.<br><br>O fewn 16 wythnos |

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (cyn cofrestru fel ysbyty) |
| Tudalen 12 | Cynghorir y practis bod angen sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o fanylion ar ôl ymgynghoriadau a thriniaethau deintyddol. Mae hyn yn unol â safonau cyfredol 7a, 7b, 7c a 9b y GIG. | Bydd hysbysiadau'n cael eu creu i'r ddau ddeintydd i'w hatgoffa i roi gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y nodiadau (nid ar lafar yn unig).<br>Bydd y ddau ddeintydd (nid un ohonynt yn unig) yn cael hysbysiadau i raddio sganiau pelydr-X mewn modiwl pelydr-X ar y cyfrifiadur, sydd wedi'i deipio yn y nodiadau clinigol ar hyn o bryd, nid y modiwl pelydr-X, sy'n gwneud gwaith archwilio'n anodd. | Mrs Tracy Pugh | 2 wythnos |
| Tudalen 13 | Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod tystiolaeth wedi ei chofnodi bod deintyddion yn ystyried hanesion meddygol cleifion newydd/wedi eu diweddaru.<br>Safon 7a y GIG | Mae cleifion yn cwblhau holiadur hanes meddygol drwy ddefnyddio *clinipad* (llechen). Os oes angen cymorth ar gleifion, mae'r staff ar gael i'w helpu bob amser. Mae'n rhaid i'r claf arwyddo'r ddogfen neu nid oes modd iddi gael ei chadw. Yna, mae'r ddogfen yn ymddangos ar gofnodion y claf ar unwaith. Mae'r deintydd yn darllen y diweddariad i'r hanes meddygol, ac yna'n ei deipio (ac yn cadarnhau) bod yr hanes meddygol yn cael ei wirio ym mhob un o nodiadau'r claf. | Mrs Tracy Pugh | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 14 | Dylai staff dderbyn arfarniadau amserol i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, ac er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant neu berfformiad.<br><br>Safon 25e y GIG | Mae arfarniadau'r staff bron yn gyflawn, a byddant yn cael eu cwblhau'n flynyddol. | Mrs Tracy Pugh | 2 wythnos |
| Tudalen 15 | Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion taflen 'Gweithio i Wella' y GIG a Rheoliad 16 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. | Darllen dogfen 'Gweithio i Wella' a gweithredu ar unrhyw faterion.<br>Sicrhau y cynhelir diweddariadau rheolaidd.<br>Cynnal archwiliadau sydd ar gael o fewn chwe mis. | Mrs Tracy Pugh | Pedair wythnos<br><br>Yn parhau |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 16 | Hysbysir y practis am yr angen i symud y peiriant OPT i ardal lle y gellir ei weithredu'n ddiogel.<br>Safon 12d y GIG | Ystafell ddadheintio sydd angen gwaith adeiladu i symud y peiriant pelydr-X o'r man sterileiddio. Yn y cyfamser, pan fydd angen OPT ar glaf, lle bo modd, bydd hyn yn cael ei drefnu pan fydd modd diffodd pŵer yr awtoclaf. | Mrs Tracy Pugh | O fewn 2 flynedd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):.....Mrs Tracey Pugh.........................................................**

**Teitl:** **....Mrs.................................................................................**

**Llofnod:** **...................................................................................................**

**Dyddiad:** **.....24/03/2015.......................................................................**